# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Hydref 2023

Amser: 09.00 - 15.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13514

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Jayne Bryant AS<br>Luke Fletcher AS<br>Joel James AS<br>Sam Rowlands AS |
| Tystion: | Jane Dodds AS<br>Vikki Howells AS<br>Altaf Hussain AS<br>Sioned Williams AS<br>Elaina Chamberlain, Llywodraeth Cymru<br>Gareth McMahon, Llywodraeth Cymru<br>Michael Kay, Llywodraeth Cymru<br>Sarah Wymer, Llywodraeth Cymru<br>Jane Hutt AS, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip<br>Stuart Evans, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Amelia John, Llywodraeth Cymru<br>Ruth Meadows, Llywodraeth Cymru<br>Joanna Valentine, Llywodraeth Cymru<br>Lorna Hall, Deputy Director for Equality and Human Rights, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Catherine Hunt (Clerc)<br>Angharad Era (Dirprwy Glerc)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd)<br>Llinos Madeley (Clerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Carolyn Thomas AS.

1.3 Dirprwyodd Vikki Howells AS ar ran Carolyn Thomas AS.

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid - Cyllideb Ddrafft 2024-25

2.1a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch cyllideb ddrafft 2024-25.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4, 5, 6, 7 a 10

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 4 Craffu deddfwriaethol – diweddariad

4.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn hyfforddiant gloywi ar waith craffu deddfwriaethol.

## 5 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) - briff technegol gan Lywodraeth Cymru

5.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio dechnegol wedi'i harwain gan swyddogion Llywodraeth Cymru:

Michael Kay, Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y Bil - Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Etholiadau

Elaina Chamberlain, Arweinydd Polisi: Pennaeth Democratiaeth, Amrywiaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol

Sarah Wymer, Rheolwr y Bil

Gareth McMahon, Uwch-gyfreithiwr y Llywodraeth: Gwasanaethau Cyfreithiol

## 6 Y Dull o Graffu

6.1 Trafododd y Pwyllgor ei ddull gweithredu a chytunodd arno.

## 7 Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol - trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

7.1 Trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 8 Cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin - Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

8.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

Ruth Meadows, Cyfarwyddwr dros-dro ar Ymateb I Wcráin

Joanna Valentine, Dirprwy Cyfarwyddwr, Is-adran Llety Trosiannol - Wcráin

Cytunodd y Gweinidog i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y canlynol:

- adborth ar gynnydd mewn perthynas â throi lleoliadau priodol yn drefniadau llety masnachol, os na fydd taliadau diolch ar gael ym mlwyddyn 3;
- rhagor o fanylion am waith dadansoddi y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud ar y rhesymau dros wrthod llety;
- manylion cyfanswm y costau a dalwyd i CTM, ar ôl i'r holl ffigurau gael eu cysoni;
- manylion gwaith parhaus Llywodraeth Cymru i ddadansoddi datganiadau blynyddol ar y grant a ddarperir i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddarparu cartrefi (gan gynnwys llety modiwlaidd) ar gyfer y bobl sydd angen tai.

## 9 Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr - Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

9.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

Stuart Evans, Pennaeth Hil; Ffydd a Chred; Polisi Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Amelia John, Cyfarwyddwr Dros Dro, Cymunedau a Threchu Tlodi

Lorna Hall, Dirprwy Gyfarwyddwr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

## 10 Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip - trafod y dystiolaeth

10.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog am nifer o faterion a godwyd.

10.2 Cytunodd y Pwyllgor i wneud gwaith dilynol ar ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr.